# Y Pwyllgor Deisebau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 1 - Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 29 Tachwedd 2011** |
| Amser: | **09:34 - 10:58** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_29_11_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **William Powell (Cadeirydd)**<br>**Russell George**<br>**Joyce Watson**<br>**Rhodri Glyn Thomas** |
| Tystion: | **Lesley Griffiths, Minister for Health and Social Services**<br>**Walker, Head of Capital, Estates and Facilities**<br>**Andrea Nicholas-Jones, Head of Older People Strategy**<br>**Alison Strode, Therapy Adviser for Wales**<br>**Lisa Dunsford, Deputy Director - Primary Care** |
| Staff y Pwyllgor: | **Abigail Phillips (Clerc)**<br>**Helen Roberts (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Rhodri Wyn Jones (Dirprwy Glerc)**<br>**Andrew Minnis** |

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Bethan Jenkins.  Roedd Rhodri Glyn Thomas yn dirprwyo ar ei rhan.

## 2. Deisebau newydd

### 2.1P-04-344 Carthffos gyhoeddus yn Freshwater East

Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm clercio am brosesu'r ddeiseb yn gyflym.

Cytunodd y Pwyllgor:
i ddisgwyl am ymateb gan Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy;
i ysgrifennu at Dŵr Cymru Welsh Water.

### 2.2P-04-345 Cysylltiadau bws a rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin

Cytunodd y Pwyllgor i ddisgwyl ymatebion gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, ac i ddisgwyl ymatebion i'r ymgynghoriad a fydd yn dod i ben ar 6 Ionawr 2012.

### 2.3P-04-346 Gofal plant di-dâl i blant 3 a 4 oed yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor:
i ddisgwyl ymateb gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau;
i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, i holi eu barn am y mater; ac
i gyhoeddi ymgynghoriad wedi'i dargedu.

### 2.4P-04-347 Adolygu eiddo ac asedau

Cytunodd y Pwyllgor:
i ddisgwyl ymateb gan y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ;
i ysgrifennu at Peter Black AC, Comisiynydd y Cynulliad sy'n gyfrifol am yr ystâd a chyfleusterau'r Cynulliad.

### 2.5P-04-348 Targedau ailgylchu ar gyfer byrddau iechyd

Cytunodd y Pwyllgor:
i ddisgwyl ymateb gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
i ysgrifennu at y Byrddau Iechyd Lleol i holi eu barn am y mater.

### 2.6P-04-349 Darpariaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg - Caerffili

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog Addysg a Sgiliau i holi ei farn am y ddeiseb.

### 2.7P-04-350 Cadw'r gwasanaethau y mae Sporttrain yn eu darparu yn y Rhondda a Chaerdydd

Cytunodd y Pwyllgor:
i ddisgwyl ymateb gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau;
i holi barn yr holl bartneriaid, gan gynnwys cynghorwyr lleol ac arweinwyr cymunedol, Cymunedau yn Gyntaf; yr heddlu a'r Byrddau Diogelu Lleol
i anfon copi o'r ohebiaeth hon at Aelodau Cynulliad yr etholaeth a'r rhanbarth.

## 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1P-03-263 Rhestru Parc y Strade

Cafwyd eglurhad nad cae Parc y Strade oedd testun y cais 'Village Green', fel y nodwyd yn yr adroddiad diweddaru, ond ardal yn ystâd ehangach Parc y Strade.

Cytunodd y Pwyllgor:
i ddisgwyl am ganlyniadau ymgynghoriad Cadw, a ddisgwylir ym mis Ebrill 2012;
i ysgrifennu at y datblygwyr i holi eu barn.

**3.2P-03-306 Achub Theatr y Barri**

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb.

**3.3P-04-335 Sefydlu tîm criced cenedlaethol i Gymru**

Cytunodd y Pwyllgor:

i anfon llythyr atgoffa at y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i holi ei farn am y ddeiseb;

y dylai'r tîm clercio lunio rhestr o wahoddedigion posibl i drafodaeth gyffredinol am y mater;

i ysgrifennu at gyrff chwaraeon nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr alwad am dystiolaeth i holi eu barn am y ddeiseb.

**3.4P-03-313 Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cwn) (Cymru) 2011**

Cytunodd y Pwyllgor:

i gadw'r ddeiseb yn agored nes y cyhoeddir y rheoliadau diwygiedig;

i hysbysu'r deisebwyr nad oes fawr mwy y gall y Pwyllgor ei wneud ar hyn o bryd, ond y bydd yn dychwelyd at y mater ar ôl i'r rheoliadau gael eu cyhoeddi.

**3.5P-04-333 Rhoi diwedd ar esgeuluso a gadael ceffylau a merlod drwy orfodi deddfwriaeth ar ddefnyddio microsglodion**

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ceffyl, yn gofyn iddo ystyried y ddeiseb hon.

## 4. Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - sesiwn dystiolaeth lafar

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Andrew Walker, Pennaeth yr Is-adran Cyfalaf, Ystadau a Chyfleusterau, Llywodraeth Cymru

Andrea Nicholas-Jones, Pennaeth Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn, Llwyodraeth Cymru (P-03-221 Gwell Triniaeth Traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol)

Alison Stroud, Cynghorydd Therapi i Gymru (P-03-221 Gwell Triniaeth Traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol)

Lisa Dunsford, Dirprwy Gyfarwyddwr - Gofal Sylfaenol, (P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol)

**4.1P-03-136 Parcio yn y Mynydd Bychan a Birchgrove**

Datgannodd Joyce Watson fuddiant gan fod ei merch yn gweithio yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Atebodd y Gweinidog gwestiynau gan y Pwyllgor ar y mater hwn.

Oherwydd cyfyngiadau amser, penderfynodd y Pwyllgor ystyried tystiolaeth y Gweinidog yn ei gyfarfod nesaf er mwyn gallu ystyried y dair deiseb yn llawn.

**4.2P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r GIG**

Atebodd y Gweinidog gwestiynau gan y Pwyllgor ar y mater hwn.

Oherwydd cyfyngiadau amser, penderfynodd y Pwyllgor ystyried tystiolaeth y Gweinidog yn ei gyfarfod nesaf er mwyn gallu ystyried y dair deiseb yn llawn.

**4.3P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol**

Atebodd y Gweinidog gwestiynau gan y Pwyllgor ar y mater hwn.
Oherwydd cyfyngiadau amser, penderfynodd y Pwyllgor ystyried tystiolaeth y Gweinidog yn ei gyfarfod nesaf er mwyn gallu ystyried y dair deiseb yn llawn.

## 5. Papurau i'w nodi

Nodwyd bapurau ynghylch y deisebau a ganlyn.

### 5.1P-03-156 Dal Anadl wrth Gysgu

### 5.2P-03-205 Cadwch Farchnad Da Byw y Fenni

### 5.3P-03-144 Cwn Tywys y Deillion

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.